

PRIFFYRDD, CYMRU

2013 Rhif. 30

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SAFLE
CYFLOGAETH STRATEGOL DWYRAIN
CROSS HANDS, CROSS HANDS, LLANELLI,
SIR GAERFYRDDIN) 2013**

Gwnaed

6 Rhagfyr 2013

Yn dod i rym

11 Rhagfyr 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac adran 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980(2).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Sir Caerfyrddin;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1980" (*"the 1980 Act"*) yw Deddf Priffyrdd 1980;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adnewyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin) 2013" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud, yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau'r Briffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra tywyll ar y plan a adnewyd a chau'r

mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir mewn lliw du solet ar y plan a adnewwyd. Mae'n ymddangos iddynt ei bod yn hwylus gwneud hyn er diogelwch defnyddwyr y priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 29 Tachwedd 2012, o dan rif cyfeirnod W/23782 ac ar 2 Gorffennaf 2013 o dan y cyfeirnod W/28259, ar gyfer y datblygiad sydd wedi ei ddisgrifio yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, ac i hwyluso symudiadau'r traffig ar y priffyrdd hynny.

Priffordd(Priffyrdd) newydd / wedi ei(eu) gwella

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â marciau dotwaith ar y plan a adnewwyd a'r priffyrdd wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd, a fydd, at ddibenion Deddf 1980, yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrw cyhoeddus a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

4. Crëir, mewn cysylltiad â chau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, y mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ysgafn ar y plan a adnewwyd.

Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Priffyrdd

5. Rhaid peidio â chau'r darn o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 na'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, gynlluniau yn dangos ym mha fodd y mae'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 a'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a'r priffyrdd wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn a'r mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 6 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 a'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau yn ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a), (b), ac (c) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol

6. Os, yn union cyn cau'r darn o briffordd neu'r mynedfeydd preifat, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Parhad y Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 6 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 6 Rhagfyr 2013

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p.66.

ATODLENNI

Darnau o briffordd a thir yn Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryal ei siâp o briffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 83 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road hyd at bwynt 96 metr o'i chyffordd â Black Lion Road, a honno'n rhan sy'n gyfanswm o 13 metr o hyd, yn 10 metr o led ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 130 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S1 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o fynedfa breifat (priffordd breifat heb ei mabwysiadu o'r enw Heol Parc Mawr) sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Heol Stanllyd tua'r gogledd-ddwyrain ac wedyn tua'r gogledd-orllewin am bellter o 255 metr, a honno'n rhan sy'n 12 metr ei lled yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 2,977 metr sgwâr ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S2 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa waith i gerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, 77 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, a honno'n rhan sy'n 10 metr o hyd yn y man hiraf, yn 1 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 8 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S3 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa i faes parcio cerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, 102 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, a honno'n rhan sy'n 13 metr o hyd yn y man hiraf, yn 2 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 19 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S4 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i Ganolfan Goncrit Hanson, sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffin ogleddol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 11 metr o hyd yn y man hiraf, yn 3 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 7 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S5 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i 'Cross Tyres', sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffin ogledd-ddwyreiniol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 14 metr o hyd yn y man hiraf, yn 4 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 40 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S6 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i'r unedau busnes i'r gorllewin o 'Cross Tyres', sef mynedfa waith i

gerbydau oddi ar ffin ogledd-ddwyreiniol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 12 metr o hyd yn y man hiraf, yn 2 fetr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 16 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S7 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Ffordd fynediad newydd i Safle Cyflogaeth Strategol y Dwyrain (ESES) sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 855 metr o gyffordd y priffyrdd o'r enw Heol Stanllyd a Heol Parc Mawr hyd at bwynt ar y briffordd o'r enw Black Lion Road rhwng y ddau eiddo o'r enw Dolwerdd a Phen-y-waun rhwng pwyntiau A a B, gan gynnwys cyffordd newydd ar ffurf cylchfan â'r briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N1 ar y plan a adnewwyd.

Ffordd ddosbarthu newydd oddi ar y ffordd fynediad newydd tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol am 113 metr hyd at y briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane, rhwng pwyntiau C a D, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N2 ar y plan a adnewwyd.

Ffyrdd dosbarthu newydd a dwy gyffordd newydd ar ffurf cylchfannau i'r gogledd-orllewin o'r briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane yn yr ESES arfaethedig rhwng pwyntiau E ac G, ac y rhoddwyd iddynt y cyfeirnod N3 ar y plan a adnewwyd.

Ffordd fynediad eilaidd newydd i'r ESES, sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 83 metr o'r briffordd o'r enw Heol Parc Mawr rhwng pwyntiau F ac G, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N4 ar y plan a adnewwyd.

Pen troi newydd ar ffin ogledd-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 66 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N5 ar y plan a adnewwyd.

Cyffordd safn newydd a phriffordd ychwanegol ar ochr ddwyreiniol y briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane o bwynt 107 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road am bellter o 104 metr tua'r de-orllewin rhwng pwyntiau H ac I, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N6 ar y plan a adnewwyd.

Priffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 154 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â Greengrove Lane rhwng pwyntiau J a K, ac y rhoddwyd iddi'r

cyfeirnod N7 ar y plan a adnewyd.

Prifffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â Greengrove Lane am bellter o 83 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â'r brifffordd newydd N3 rhwng pwyntiau L ac M, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N8 ar y plan a adnewyd.

Rhwydwaith o briffyrdd newydd (llwybrau beiciau) yn cysylltu rhannau rheiddiol y brifffordd newydd N3 am bellter a fydd yn gyfanswm o 381 metr rhwng pwyntiau N, O, P, Q, R ac S ac y rhoddwyd iddynt y cyfeirnod cyfun N9 ar y plan a adnewyd.

Prifffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â'r brifffordd newydd N3 am bellter o 153 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â llwybr troed cyhoeddus 31/45 rhwng pwyntiau T ac U, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N10 ar y plan a adnewyd.

Prifffordd newydd (llwybr ceffylau) dros ddarn petryal ei siâp o brifffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 83 metr o'i chyffordd â'r brifffordd o'r enw Black Lion Road hyd at bwynt 96 metr o'i chyffordd â Black Lion Road, a honno'n rhan sy'n gyfanswm o 13 metr o hyd, yn 10 metr o led ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 130 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N11 ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Mynedfa breifat newydd i 'Cig Calon Cymru Cyf', sef mynedfa i gerbydau oddi ar gyffordd gylchfan ffordd fynediad newydd arfaethedig ESES, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P1 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa waith i gerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 77 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P2 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa i faes parcio cerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 102 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P3 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i'r tir sydd i'w gadw i 'Cross Tyres', sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 53 metr o'i chyffordd â'r

briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P4 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w wella o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryal o briffordd o'r enw Black Lion Road sy'n ymestyn o bwynt 35 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Greengrove Lane tua'r de-ddwyrain am 120 metr, rhwng y ddau eiddo o'r enw Dolwerdd a Phen-y-waun, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H1 ar y plan a adnewwyd.

Darn petryal o'r briffordd o'r enw Greengrove Lane o bwynt 96 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road am bellter o 180 metr tua'r de-orllewin, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H2 ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, sy'n ymestyn o'r fynedfa i gerbydau i'r Ganolfan Fusnes a'r Gweithdai am bellter o 110 metr tua'r gogledd-orllewin, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H3 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Datblygiad arfaethedig Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, gan gynnwys ailddatblygu a gwella tir ynghyd â ffyrdd mynediad perthynol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SAFLE CYFLOGAETH STRATEGOL DWYRAIN CROSS HANDS, CROSS HANDS, LLANELLI, SIR GAERFYRDDIN) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; i awdurdodi cau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2; i ddarparu ar gyfer y darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3; i ddarparu ar gyfer y mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 ac i wella'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 5.

Awdurdodir cau'r briffordd er diogelwch defnyddwyr y priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio, os caiff ei roi, ac i hwyluso symudiadau'r traffig ar y priffyrdd hynny. Mae Gorchymyn Cau Priffyrdd (Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin) 2013 ("y Gorchymyn") hefyd yn darparu i'r darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 a'r darnau o briffordd wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlen 5 ddod yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwr cyhoeddus. Bydd y Gorchymyn, os caiff ei wneud, yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Cross Hands, 10 Heol Llandeilo, Cross Hands, Llanelli SA14 6NA yn ystod oriau agor arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1011462.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 11 Rhagfyr 2013, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth /Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchymynion Cau TCPA/2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Trafnidiaeth, Y Gangen Orchymynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryal ei siâp o briffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 83 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road hyd at bwynt 96 metr o'i chyffordd â Black Lion Road, a honno'n rhan sy'n gyfanswm o 13 metr o hyd, yn 10 metr o led ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 130 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S1 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o fynedfa breifat (priffordd breifat heb ei mabwysiadu o'r enw Heol Parc Mawr) sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Heol Stanllyd tua'r gogledd-ddwyrain ac wedyn tua'r gogledd-orllewin am bellter o 255 metr, a honno'n rhan sy'n 12 metr ei lled yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 2,977 metr sgwâr ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S2 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa waith i gerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, 77 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, a honno'n rhan sy'n 10 metr o hyd yn y man hiraf, yn 1 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 8 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S3 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa i faes parcio cerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, 102 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, a honno'n rhan sy'n 13 metr o hyd yn y man hiraf, yn 2 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 19 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S4 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i Ganolfan Goncrit Hanson, sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffin ogleddol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 11 metr o hyd yn y man hiraf, yn 3 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 7 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S5 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i 'Cross Tyres', sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffin ogledd-ddwyreiniol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 14 metr o hyd yn y man hiraf, yn 4 metr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 40 metr sgwâr, ac y

rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S6 ar y plan a adnewwyd.

Mynedfa breifat bresennol i'r unedau busnes i'r gorllewin o 'Cross Tyres', sef mynedfa waith i gerbydau oddi ar ffin ogledd-ddwyreiniol Heol Parc Mawr, a honno'n rhan sy'n 12 metr o hyd yn y man hiraf, yn 2 fetr o led yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 16 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod S7 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Ffordd fynediad newydd i Safle Cyflogaeth Strategol y Dwyrain (ESES) sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 855 metr o gyffordd y priffyrdd o'r enw Heol Stanllyd a Heol Parc Mawr hyd at bwynt ar y briffordd o'r enw Black Lion Road rhwng y ddau eiddo o'r enw Dolwerdd a Phen-y-waun rhwng pwyntiau A a B, gan gynnwys cyffordd newydd ar ffurf cylchfan â'r briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N1 ar y plan a adnewwyd.

Ffordd ddosbarthu newydd oddi ar y ffordd fynediad newydd tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol am 113 metr hyd at y briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane, rhwng pwyntiau C a D, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N2 ar y plan a adnewwyd.

Ffyrdd dosbarthu newydd a dwy gyffordd newydd ar ffurf cylchfannau i'r gogledd-orllewin o'r briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane yn yr ESES arfaethedig rhwng pwyntiau E ac G, ac y rhoddwyd iddynt y cyfeirnod N3 ar y plan a adnewwyd.

Ffordd fynediad eilaidd newydd i'r ESES, sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 83 metr o'r briffordd o'r enw Heol Parc Mawr rhwng pwyntiau F ac G, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N4, ar y plan a adnewwyd.

Pen troi newydd ar ffin ogledd-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 66 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N5 ar y plan a adnewwyd.

Cyffordd safn newydd a phriffordd ychwanegol ar ochr ddwyreiniol y briffordd bresennol o'r enw Greengrove Lane o bwynt 107 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road am bellter o 104 metr tua'r de-orllewin rhwng pwyntiau H ac I, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N6 ar y plan a adnewwyd.

Priffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 154 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â Greengrove Lane rhwng pwyntiau J a K, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N7 ar y plan a adnewyd.

Priffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â Greengrove Lane am bellter o 83 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â'r briffordd newydd N3 rhwng pwyntiau L ac M, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N8 ar y plan a adnewyd.

Rhwydwaith o briffyrdd newydd (llwybrau beiciau) yn cysylltu rhannau rheidiol y briffordd newydd N3 am bellter a fydd yn gyfanswm o 381 metr rhwng pwyntiau N, O, P, Q, R ac S ac y rhoddwyd iddynt y cyfeirnod cyfun N9 ar y plan a adnewyd.

Priffordd newydd (llwybr beiciau) o'i chyffordd â'r briffordd newydd N3 am bellter o 153 metr i'r gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â llwybr troed cyhoeddus 31/45 rhwng pwyntiau T ac U, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N10 ar y plan a adnewyd.

Priffordd newydd (llwybr ceffylau) dros ddarn petryal ei siâp o briffordd o'r enw Greengrove Lane ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Trysor, o bwynt 83 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road hyd at bwynt 96 metr o'i chyffordd â Black Lion Road, a honno'n rhan sy'n gyfanswm o 13 metr o hyd, yn 10 metr o led ac y mae gyfanswm ei harwynebedd yn 130 metr sgwâr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod N11 ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Mynedfa breifat newydd i 'Cig Calon Cymru Cyf', sef mynedfa i gerbydau oddi ar gyffordd gylchfan ffordd fynediad newydd arfaethedig ESES, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P1 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa waith i gerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 77 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P2 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i ffatri Shufflebottom, sef mynedfa i faes parcio cerbydau oddi ar ffin dde-ddwyreiniol ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 102 metr i'r gogledd o gyffordd Heol Parc Mawr a Heol Stanllyd, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P3 ar y plan a adnewyd.

Mynedfa breifat newydd i'r tir sydd i'w gadw i 'Cross Tyres', sef mynedfa i gerbydau oddi ar ffordd fynediad arfaethedig newydd ESES, 53 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod P4 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w wella o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryal o briffordd o'r enw Black Lion Road sy'n ymestyn o bwynt 35 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Greengrove Lane tua'r de-ddwyrain am 120 metr, rhwng y ddau eiddo o'r enw Dolwerdd a Phen-y-waun, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H1 ar y plan a adnewwyd.

Darn petryal o'r briffordd o'r enw Greengrove Lane o bwynt 96 metr o'i chyffordd â'r briffordd o'r enw Black Lion Road am bellter o 180 metr tua'r de-orllewin, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H2 ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Heol Parc Mawr, sy'n ymestyn o'r fynedfa i gerbydau i'r Ganolfan Fusnes a'r Gweithdai am bellter o 110 metr tua'r gogledd-orllewin, ac y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod H3 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Datblygiad arfaethedig Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, gan gynnwys ailddatblygu a gwella tir ynghyd â ffyrdd mynediad perthynol yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 29 Tachwedd 2012, o dan rif cyfeirnod W/23782 ac ar 2 Gorffennaf 2013 o dan y cyfeirnod W/28259.